Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# Cronfa Economi Gylchol

## Nodiadau Cyfarwyddyd



Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

POWERED BY
LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

**Cronfa Economi Gylchol Deg Tref**

**Cyflwyniad**
Nod y Gronfa Economi Gylchol yw cefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at hyrwyddo'r Economi Gylchol fel rhan o'r fenter Deg Tref.

Bydd cyllid sbarduno o hyd at uchafswm o £5,000 fesul ymgeisydd ar gael i gefnogi cymunedau i ddatblygu gweithgareddau economi gylchol yng nghanol trefi sy'n helpu i ddarparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol i'r gymuned leol, gan gynorthwyo i ddatblygu prosiectau cynaliadwy wrth leihau ôl troed carbon lleol.

Bydd cyllid o hyd at 100% o gyfanswm costau'r prosiect ar gael.

**Gweithgareddau prosiect cymwys**

Mae cyllid wedi'i sicrhau drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

**Sylwch fod yn rhaid i bob prosiect sy'n ceisio cyllid o dan y Gronfa Economi Gylchol gael ei gyflawni erbyn mis Rhagfyr 2024 fan bellaf. Rhaid i brosiectau hefyd fod mewn sefyllfa i gyflawni a thystiolaethu allbynnau a chanlyniadau o fewn yr amserlen hon.**

Bydd y gronfa'n cefnogi'r prosiectau cymwys canlynol:

- Llyfrgell Pethau
- Caffis Atgyweirio
- Cyfleusterau/seilwaith compostio cymunedol
- Prosiectau ailddefnyddio/atgyweirio tecstilau
- Prosiectau adfer plastig
- Siopau cyfnewid
- Gweithdai/digwyddiadau codi ymwybyddiaeth Economi Gylchol
- Meithrin gallu/hyfforddiant i hwyluso gweithgareddau/prosiectau economi gylchol
- Siopau sgrap

**Ardaloedd Cymwys**

Mae'r gronfa ar gael i weithgareddau fydd yn cael eu darparu yn nhrefi marchnad wledig y Sir, sef:

- Cross Hands
- Cwmaman
- Cydweli
- Talacharn
- Llandeilo
- Llanymddyfri
- Llanybydder
- Castellnewydd Emlyn
- Sanclêr
- Hendy-gwyn ar Daf

**Lefelau’r grant**

Bydd cymorth ariannol ar gael drwy gynllun grant trydydd parti i grwpiau â chyfansoddiad:

Trothwy Grantiau rhwng £1,000 a £5000.

**Sefydliadau Cymwys**

Mae sefydliadau cymwys yn cynnwys:

- • Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol â Chyfansoddiad
- • Elusennau Cofrestredig
- • Sefydliadau di-elw
- Mentrau Cymdeithasol
- • Gall Cynghorau Tref a Chymuned wneud cais am brosiectau cymunedol sy'n ychwanegol at gyfrifoldebau statudol arferol a fydd o fudd i'r gymuned.

**Costau cymwys/anghymwys**

| Costau Cymwys | Costau / Gweithgareddau anghymwys |
|---|---|
| • Costau sefydlu.<br>• Yswiriant ar gyfer grwpiau newydd (ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024 yn unig)<br>• Costau gwirfoddoli.<br>• Hyfforddiant.<br>• Offer sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r prosiect<br>• Marchnata a chyfathrebu. | • Costau y tu allan/heb fod yn gysylltiedig â'r prosiectau economi gylchol.<br>• TAW (oni bai nad oes modd ei adennill)<br>• Costau prosiect y tu allan i'r amserlen ariannu.<br>• Costau prosiect yr ystyrir eu bod yn ormodol.<br>• Argostau.<br>• Costau staff 'busnes fel arfer'. |

**Proses Asesu**

Bydd ceisiadau’n cael eu hasesu a’u blaenoriaethu yn unol â’r meini prawf canlynol:

- Gall ymgeiswyr ddangos angen a nodwyd yn glir
- Bydd y prosiect yn cyflawni yn erbyn allbynnau a chanlyniadau'r cynllun
- • Gallu cyflawni o fewn yr amserlen (rhaid cwblhau pob prosiect erbyn diwedd Rhagfyr 2024 fan bellaf)
- •Gwerth am arian
- Wedi ystyried sut mae cyfleoedd sgiliau a phobl yn rhan o gyflawni’r prosiect ehangach

**Allbynnau Mesuradwy**

Rhaid i bob prosiect nodi pa rai o'r allbynnau a'r canlyniadau canlynol fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i’r cyllid. Mae diffiniadau i’w gweld yn Atodiad A.

**Allbynnau**

- Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau
- Nifer y digwyddiadau neu’r gweithgareddau lleol sy’n cael eu cefnogi
- Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sy’n cael eu cefnogi
- • Nifer y bobl sy’n cael eu cyrraedd
- Nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddi

**Canlyniadau**

- Cynyddu niferoedd ymgysylltu
- Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sydd wedi’u creu o ganlyniad i’r cymorth
- Rhoi data diwedd blwyddyn ar gyfaint/pwysau/nifer y deunyddiau sy'n cael eu hailddefnyddio/ailgynhyrchu/ailgylchu o ganlyniad i'r prosiect hwn

**Themâu Trawsbynciol**

Bydd yn ofynnol i bob gweithgaredd ddangos sut y bydd yn bodloni’r themâu trawsbynciol canlynol:

**Effaith ar y Gymraeg**

Mae Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau y mae’n eu rhoi yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Er mwyn bodloni’r gofynion hyn rhaid i chi wneud pob ymdrech i wneud y canlynol:

- • Gweithredu’n ddwyieithog yn gyhoeddus, gan roi presenoldeb a statws gweledol uchel i’r Gymraeg ar bob cyfle (deunyddiau hyrwyddo, postiadau, datganiadau i’r wasg)
- • Cyfathrebu'n ddwyieithog â'r cyhoedd (e-bost, datganiadau i'r wasg, llythyrau, galwadau ffôn)
- • Cydweithio â phartneriaid sy’n hybu’r Gymraeg (Mentrau Iaith, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, ysgolion cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, capeli, corau, papurau newydd lleol, fforymau a rhwydweithiau sy’n hybu’r Gymraeg)
- Sicrhau bod gweithlu â sgiliau Cymraeg, neu drefniadau eraill ar waith, a fydd yn galluogi gweithgaredd yn unol â'r Safonau.
- • Darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu ar-lein yn Gymraeg

**Gwasanaethau hygyrch digidol**

Isod, amlinellir camau gweithredu posibl i sefydliadau eu hystyried wrth ddatblygu a chyflawni eu prosiectau:

- • Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch prosiect yn ddigidol: yn ogystal â dulliau cyhoeddusrwydd traddodiadol seiliedig ar bapur, ceisiwch ddefnyddio ystod o wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol; gwefan neu flog prosiect. Creu cynnwys digidol fel fideos a phodlediadau y gellir eu rhannu â'r gymuned.

- • Cynnal cyfarfodydd hybrid – gan ganiatáu i'r gymuned fynychu cyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein trwy dechnolegau fel Microsoft Teams a Zoom.
- Defnyddio arolygon ar-lein (e.e. SurveyMonkey neu Microsoft Forms) i ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned. Gellir eu defnyddio hefyd i werthuso effaith prosiect.
- • Ystyried penodi tîm o hyrwyddwyr digidol i gefnogi'r prosiect i wneud yn fawr o fanteision technolegau digidol.
- • Annog mwy o ddefnyddwyr yn y gymuned i ymgysylltu â thechnolegau digidol.
- Ymgysylltu â Cyflymu Cymru i Fusnesau neu Cymunedau Digidol Cymru i gael rhagor o syniadau a chyngor ar wella'ch cynnwys a'ch sgiliau digidol
- Er gwybodaeth - Pecyn Cymorth Digidol i Fusnesau (llyw.cymru)

**Sicrhau Cyfle Cyfartal**

Mae cydraddoldeb yn derm syml ar gyfer yr holl waith a wneir gan sefydliad i hyrwyddo cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu, mewn cyflogaeth ac wrth gyflawni ei waith a darparu gwasanaethau.

Drwy roi cydraddoldeb wrth wraidd cynllunio a gweithredu prosiectau, mae sefydliadau yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau gwell.

**Caffael**
**Prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith**
Mae disgwyl i ymgeiswyr, wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau, gynnal y broses honno mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn agored, yn rhoi gwerth am arian ac yn deg. Rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau caffael fel y maent wedi'u hamlinellu yn yr adran hon.

**Trothwyon Caffael**
Bydd yr union weithdrefnau sydd i'w dilyn yn dibynnu ar faint yr archeb neu'r contract i'w gosod/osod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) yn gweithredu cyfres raddedig o weithdrefnau sy'n cydnabod yr angen am ysgafnhau gofynion gweinyddol ar gyfer contractau sy'n ymwneud â symiau llai. Rhaid i bob ymgeisydd gadw at y rheolau a nodir yn Atodiad B.

Mae'n ofynnol i gyrff sector cyhoeddus sy'n dod o dan Gyfarwyddebau Caffael y Comisiwn Ewropeaidd ddilyn eu rheolau a'u gweithdrefnau caffael sefydliadol eu hunain.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu nad yw'r costau'n gymwys i gael cymorth o dan y gronfa hon.

**Cyhoeddusrwydd**

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos cymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyhoeddusrwydd gan gynnwys datganiadau i'r wasg mewn perthynas â'r prosiect a ariennir.

**Cymorthdaliadau Cyhoeddus**

Mae'r cynllun hwn yn dod o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau (2022) presennol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ni ddylai cyfanswm y Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) a dderbyniwyd mewn cyfnod treigl o dair blynedd ariannol fod yn fwy na £315,000 fesul busnes*. Os ydych wedi derbyn unrhyw gymorth

ariannol arall yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf, gofynnir i chi ddatgan nad oes modd mynd y tu hwnt i hyn os bydd cynnig yn cael ei wneud.

**Iechyd a Diogelwch**

Rhaid i chi sicrhau bod eich prosiect yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch ac nad oes unrhyw risgiau neu beryglon posibl i aelodau'r cyhoedd. Sicrhewch fod yswiriant priodol ar waith.

**Cydymffurfiaeth Amgylcheddol**

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich prosiect yn cydymffurfio â'r holl reoliadau amgylcheddol.

*Atodiad A*

*Allbynnau a Chanlyniadau'r Rhaglen*

| Allbwn | Diffiniad | Tystiolaeth Archwilio |
|---|---|---|
| Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau | Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau.<br>Bydd sefydliadau naill ai:<br>- Y buddiolwr terfynol yw derbynnydd y dyfarniad ei hun, er enghraifft, awdurdod lleol, sefydliad addysg uwch neu sefydliad sy'n cynrychioli sector penodol a all fod yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb.<br>- Sefydliad sy'n fuddiolwr terfynol ac nad yw'n cyd-fynd â'r disgrifiad uchod ac na ellir ei ddosbarthu o dan y dangosyddion allbwn busnes, er enghraifft, sefydliad elusennol.<br>- Mae grant yn golygu taliad arian parod gan y prosiect nad yw'n cael ei ad-dalu | Cronfa ddata Monitro Prosiect, Ffurflen Monitro Hawliadau a thystiolaeth ategol |
| Nifer y digwyddiadau neu'r gweithgareddau lleol sy'n cael eu cefnogi | Nifer y digwyddiadau neu'r gweithgareddau lleol sy'n cael eu cefnogi. Mae digwyddiad yn cyfeirio at weithgareddau sy'n cael eu cynllunio. Dylai'r rhain berthyn i'r categorïau isod:<br>- Y rhai sy'n ymwneud â: (1) Ffilm, Teledu, Cerddoriaeth, Radio (2) Treftadaeth (3) Celfyddydau, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd.<br>- Mae gweithgareddau a digwyddiadau eraill yn cynnwys, er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i, chwaraeon, gwirfoddoli, twristiaeth a gweithredu cymdeithasol. | Manylion y digwyddiad sydd wedi'i gynllunio h.y., marchnata a hyrwyddo, ffotograffau |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu cefnogi | Nifer y rolau gwirfoddoli wedi'u trefnu sydd wedi cael eu cefnogi o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl wirfoddoli'n rheolaidd, a chyfleoedd i wirfoddoli unwaith yn unig.<br>- Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at y rhai sydd wedi rhoi cymorth di-dâl drwy grŵp, clwb neu sefydliad: er enghraifft, arwain grŵp, cymorth gweinyddol neu gyfeillio neu fentora pobl | Cadarnhad wedi'i lofnodi gan wirfoddolwr o'r rôl a gyflawnwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â chymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.<br><br>Taflen amser gwirfoddolwyr wedi'i chwblhau. |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddi | Nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddi<br>-Mae sesiynau hyfforddi yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar sgiliau digidol, rheoli, arwain, cydweithio, rhwydweithio a dewisiadau amgen carbon is. | Cofrestr o fynychwyr<br>Manylion yr hyfforddiant a gynhaliwyd |
| **Canlyniad** | **Diffiniad** | **Tystiolaeth Archwilio** |
| Cynyddu niferoedd ymgysylltu | Y cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n ymgysylltu â'r ardal / gweithgaredd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf. Gall ymgysylltu gynnwys ymgysylltiadau corfforol a digidol.<br><br>Dylai'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu fel yr 'ardal leol' lle cofnodir digwyddiadau aros yn gyson drwy gydol y casgliad e.e., Ni ddylai gynnwys / eithrio digwyddiadau mewn lleoliadau cyfagos a gafodd eu heithrio/eu cynnwys mewn ffurflenni blaenorol. | Tystiolaeth o niferoedd presenoldeb, ymweliadau â gwefan/ap, ffotograffau |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sydd wedi'u creu o ganlyniad i'r cymorth | Nifer y rolau gwirfoddoli wedi'u trefnu sydd wedi cael eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl wirfoddoli'n rheolaidd, a chyfleoedd i wirfoddoli unwaith yn unig.<br><br>- Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at y rhai sydd wedi rhoi cymorth di-dâl drwy grŵp, clwb neu sefydliad: er enghraifft, arwain grŵp, cymorth gweinyddol neu gyfeillio neu fentora pobl | Manylion rolau gwirfoddolwyr sydd wedi'u creu, nifer yr oriau |

*Atodiad B*

Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti

| Gofyniad | Gwerth | Y Broses Gaffael |
|---|---|---|
| **Pawb** | **hyd at £4,999** | Rhaid cael a chadw o leiaf **1 dyfynbris ysgrifenedig**.<br><br>Mae'n rhaid cael y gwerth gorau am arian ac mae'n rhaid cymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol i gefnogi'r penderfyniad at ddibenion archwilio.<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath. |
| **Pawb** | **£5,000 a £24,999** | Rhaid ceisio o leiaf **3 dyfynbris ysgrifenedig** o ffynonellau cystadleuol*. Mae'n rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb a chael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'.<br><br>Mae'n rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.<br><br>Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath. |
| DS – Nid yw trothwyon gwario o £75K ac yn is yn cynnwys TAW. | | |
| DS- Nid yw trothwyon gwario ar gyfer Nwyddau / Gwasanaethau o dan £213,477 a gwaith o dan £5,336,937 yn cynnwys TAW | | |

**Canllawiau Pwysig**

**Hysbysebu trwy Gwerthwchigymru**

*Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, www.gwerthwchigymru.llyw.cymru os yw'n anodd ichi bennu isafswm nifer y cyflenwyr sydd ei angen a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau, ond efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.

Mae'r cyfleuster hwn ar gael ichi yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru: https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru a ffoniwch linell gymorth y wefan (0800 222 9004) i gael rhagor o wybodaeth.

**Yn Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau**

Yn achos gwariant sy'n fwy na £5,000, mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi'u ceisio, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.

**Cyllidwyr Eraill**

Os yw prosiect yn cynnwys unrhyw ffrydiau cyllido eraill neu ffrydiau cyllido ychwanegol, mae'n rhaid, o leiaf, dilyn y Rheolau hyn ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti ar gyfer cyfanswm gwariant amcangyfrifedig y gofyniad.

**Osgoi gwrthdaro buddiannau**

Rydym yn sylweddoli y gallai ymgeiswyr/datblygwyr, neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd/datblygwr. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall.  Rhaid cymryd unrhyw fesurau perthnasol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.

Os oes gan ymgeisydd / datblygwr neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant ariannol, economaidd, gwleidyddol neu bersonol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu eu didueddrwydd a'u hannibyniaeth yng nghyd-destun y weithdrefn gaffael:

- mae'n rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw berson neu barti arall sydd â buddiant, ddatgan y cyfrwy fuddiant yn ysgrifenedig wrth Swyddog y Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.
- mae'n rhaid sicrhau nad yw manylebau a meini prawf gwerthuso yn ffafrio nac wedi'u teilwra ar gyfer un datrysiad nac unrhyw un parti dros un arall.
- ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â buddiant gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i werthuso'r tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd grant roi'r gymeradwyaeth derfynol.
- Mae'n rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.
- Pe bai'r contract fel rheol yn destun un weithdrefn dendro, argymhellir y dylai'r noddwr ofyn am ddyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr arall (h.y. yn dilyn y weithdrefn a nodir uchod ar gyfer contractau rhwng £5000 a £25,000)

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod yna degwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw gonestrwydd yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

**Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract**

Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, efallai y bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau'r gwerth gorau

am arian. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle derbynnir tendrau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau cyllido yn newid ac ati. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r Swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cygor yn unol â hynny.

er

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**
- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i reolwr y prosiect.**
- **Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â Rheolwr y Prosiect i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

## Cynghorion ynghylch Tendro

| Pethau i'w gwneud | Pethau i beidio â'u gwneud |
|---|---|
| • gofalwch fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. | • **Peidiwch** â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol. |
| • cydymffurfiwch â'r rheolau priodol. | • **Peidiwch** â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu. |
| • gofalwch fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion. | • **Peidiwch** â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses. |
| • gofalwch fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract. | • **Peidiwch** â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris. |
| • gofalwch lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio. | • **Peidiwch** â rhoi gormod o fanylion ar lafar pan fyddwch yn ateb cwestiynau penodol gan gyflenwyr. Mae'n rhaid darparu'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr i sicrhau bod y broses yn un deg. |
| • gofalwch fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg i'w debyg'. | • **Peidiwch** â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl. |
| • gofalwch eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. | • **Peidiwch** â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd. |
| • caniatáu digon o amser i gwmnïau gyflwyno eu dyfynbris. | • **Peidiwch** ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau. |
| • sicrhau bod gwerth y Nwyddau / Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses i gymhwyso'r broses gaffael gywir. Rhaid defnyddio'r gwerth cyfunol lle bo'n berthnasol | • **Peidiwch** ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. |

## Diffiniadau Caffael

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cyfuno** | Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth neu waith. |
| **Contract** | Ystyr Contract at ddibenion y Rheolau hyn fydd unrhyw gytundeb (boed yn ysgrifenedig ai peidio) rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer: -<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflawni gwaith<br>• darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau). |
| **Ffynhonnell Gystadleuol** | darparwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall. |
| **Nwyddau** | eitemau materol, h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. |
| **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015** | rheolau a rheoliadau yw'r rhain y mae'n rhaid i sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus eu dilyn wrth gaffael Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau dros drothwy penodol a rhaid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. |
| **Gwerthuso** | dull o bennu pa gynnig yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw. |
| **Meini Prawf Gwerthuso** | Rhestr o'r gofynion allweddol a dynnwyd o'r fanyleb a fydd yn galluogi'r cyflenwyr i esbonio sut y maent yn bwriadu darparu'r gofynion a gaiff eu gwerthuso. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa dendr yw'r mwyaf economaidd fanteisiol yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris/cost ac ansawdd. |
| **Panel Gwerthuso** | Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe all fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso. Dylai'r Panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarferiad caffael. |
| **GwerthwchiGymru** | Gwefan Gaffael Genedlaethol yw hon lle caiff holl gontractau'r sector cyhoeddus eu hysbysebu. Gall Derbynwyr Grant Trydydd Parti hefyd hysbysebu trwy'r wefan, a hynny yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Gwasanaethau** | tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati. |
| **Manyleb** | datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Efallai mai disgrifiad byr fydd yn achos cynnyrch syml, ond yn achos gofyniad cymhleth, bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Ni ddylai disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol. |
| **Tendr/Dyfynbris** | y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i gyflwyno dyfynbris/tendr. Mae'r ddogfen yn nodi gwybodaeth gyffredinol drwy arddangos gallu a chymhwyster y cyflenwr - gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni manylebau'r gofyniad. |
| **Gwaith** | gan gynnwys tirweddu, adeiladu, gwaith adeiladu ac ati |

‘Mae croeso ichi gysylltu â’r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg.

Mae croeso ichi gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg’